Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(156)v4

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (10 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

Aled Roberts (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y swyddi posibl a gaiff eu colli yn First Milk ym Maelor?

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi aelodau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)**

NDM5332 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Pharagraffau 4(1) a 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5:

1. Yn penodi Isobel Garner, Peter Price, David Corner, Christine Hayes a Steven Burnett yn aelodau anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru; a

2. Yn penodi Isobel Garner yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Sylwer: Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar benodi aelodau anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**5 Cynnig i gytuno ar daliadau aelodau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)**

NDM5333 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Pharagraffau 7(1) a 7(4) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013:

1. Yn penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol o £25,000 y flwyddyn i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; a

2. Yn penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol o £12,500 y flwyddyn i aelodau anweithredol eraill Swyddfa Archwilio Cymru.

Sylwer: Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar benodi aelodau anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**6 Cynnig i ddiwygio RhS18 mewn cysylltiad â Chyfrifon Cyhoeddus ac arolygiaeth Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)**

NDM5329 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 18 – Cyfrifon Cyhoeddus a Goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2013; a

2. Yn cymeradwyo’r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 18 ac 20:

(a) fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar unwaith; a

(b) fel y nodir yn Atodiad D i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2014.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid (5 munud)**

NDM5334 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid fel ei fod, yn ogystal â’i swyddogaethau presennol, yn cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 ac 18.11.

**8 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**

NNDM5325

Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod risg uchel llusernau awyr i ddiogelwch y cyhoedd, i adeiladau a strwythurau, ac i les anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i rinweddau cyfyngu ar ryddhau llusernau awyr yng Nghymru.

**9 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i**

**weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol (60 munud)**

NDM5328 David Rees (Aberafan)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2013.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Hydref 2013.

Dogfennau ategol:
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb Llywodraeth Cymru

**10 Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Llythrennedd Ariannol (Bethan Jenkins) (60 munud)**

NDM5299 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Bethan Jenkins gyflwyno Bil er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 11 Gorffennaf 2013 o dan Reol Sefydlog 26.90.

Gellir gweld y wybodaeth cyn y balot drwy fynd i:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill-055.htm

Dogfennau ategol:
Crynodeb o ymatebion a chasglwyd gan y tîm Allgymorth

**Cyfnod Pleidleisio**

**11 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5330 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Awtistiaeth: Yr angen am ddiagnosis amserol yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 22 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Hydref 2013 i'w hateb ar 16 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Pa wybodaeth y gall y Gweinidog ei darparu am effeithiolrwydd ymgyrch Llywodraeth Cymru i ddileu ysmygu mewn ceir y mae plant yn deithwyr ynddynt? OAQ(4)0335(HSS)

2. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau i bobl â dementia yng Nghymru? OAQ(4)0334(HSS)

3. Mick Antoniw (Pontypridd): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo pobl yng Nghymru sy'n dioddef o Ceratoconws? OAQ(4)0332(HSS)

4. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth deintyddiaeth y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0331(HSS)

5. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwên Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0328(HSS)

6. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau i gleifion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd? OAQ(4)0327(HSS)

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion Adroddiad Francis? OAQ(4)0343(HSS)

**8. Leighton Andrews (Rhondda)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Raglen De Cymru? OAQ(4)0330(HSS)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros am brawf clyw yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0337(HSS)W

**10. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau y bydd yr holl bobl yn y categorïau mewn perygl yn cael y brechlyn ffliw? OAQ(4)0340(HSS)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu a gweithredu Cod Ymarfer ar gyfer Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru)? OAQ(4)0342(HSS)

**12. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog o ran gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn helpu pobl hŷn i aros mor annibynnol â phosibl yn y gymuned? OAQ(4)0339(HSS)

**13. Sandy Mewies (Delyn)**: Pa gynnydd pellach sydd wedi'i wneud ers yr achosion o'r frech goch yn gynharach eleni tuag at gyrraedd targedau imiwneiddio ymhlith plant ifanc a phlant yn eu harddegau? OAQ(4)0336(HSS)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cynllun cyflawni niwrolegol? OAQ(4)0333(HSS)W

**15. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella perfformiad GIG Cymru? OAQ(4)0325(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

1. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am greu llyfr statud i Gymru? OAQ(4)0052(CG)W

2. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael gyda swyddogion y gyfraith mewn mannau eraill ynglŷn ag ymarferoldeb cyfeirio biliau'r Cynulliad Cenedlaethol i'r Goruchaf Lys ar gyfer penderfyniad ar eu cymhwysedd? OAQ(4)0051(CG)W

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

1. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud tuag at ei amcanion o ran trechu tlodi mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0075(CTP)W

2. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o nifer y menywod sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0078(CTP)

3. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i liniaru tlodi drwy'r Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi? OAQ(4)0077(CTP)

4. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu'r sector gwirfoddol? OAQ(4)0081(CTP)W

5. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa linellau sylfaen a ddefnyddir i fonitro cynnydd y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol? OAQ(4)0079(CTP)

6. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chymdeithas ddinesig Cymru o ran ei datblygu ar gyfer y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? OAQ(4)0084(CTP)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cysylltiad rhwng anabledd a thlodi yng Nghymru? OAQ(4)0082(CTP)

**8. David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu adroddiad cynnydd ar weithredu'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf newydd ledled Cymru? OAQ(4)0087(CTP)

**9. Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau 'tlodi mewn gwaith'? OAQ(4)0076(CTP)

**10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnal adolygiad o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0071(CTP)

**11. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y cynnydd mewn biliau cyfleustodau ar lefelau tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0072(CTP)

**12. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)0074(CTP)

**13. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith? OAQ0083(CTP)

**14. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghwm Cynon? OAQ0080(CTP)

**15. Leighton Andrews (Rhondda)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Grant Cymorth i Gyflogwyr i gyn-weithwyr Remploy? OAQ(4)0073(CTP)R